**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Llun, 16 Rhagfyr, 2019**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau,19 Rhagfyr, 2019. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Llun, 30 Rhagfyr, 2019.Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Mawrth, 31 Ionawr, 2019.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Carwyn Jones a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Aled Morris Jones

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd Alun Mummery

(10:00 y. b. tan 10:15 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd, 2019 fel rhai cywir yn amodol ar nodi bod y Cynghorydd Carwyn Jones yn bresennol yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Ionawr hyd at Awst, 2020 gyda'r newidiadau ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau trefniadau atebolrwydd a chynllunio ymlaen llaw** |

| | |
|---|---|
| | |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli Trysorlys 2019/20**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi cynnwys yr adroddiad ac anfon yr adroddiad ymlaen i'r Cyngor Llawn heb unrhyw sylw pellach.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gymdymffurfio gyda rheoliadau CIPFA** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Mae'r adolygiad canol blwyddyn yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan y Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Ffioedd a Thaliadau 2020/21**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r atodlen Ffioedd a Thaliadau am 2020/21 fel yr amlinellir yn y llyfryn o dan Atodiad A i'r adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gymeradwyo atodlen ffioedd a thaliadau am 2020/21** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Newidiadau i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu Ailstrwythuro Mewnol**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn –**<br><br>• **Nodi'r newidiadau ac yn cadarnhau ei fod yn cytuno â'r** |

| | |
|---|---|
| | **strwythur newydd fel yn Atodiad 2 yr adroddiad sy'n dangos:**<br><br>• **Newid i deitlau swyddi a manylebau aelodau o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth/Penaethiaid Gwasanaeth.**<br><br>• **Diddymu dwy rôl y Prif Weithredwyr Cynorthwyol.**<br><br>• **Creu un rôl Dirprwy Brif Weithredwr.**<br><br>• **Diddymu dwy rôl Pennaeth Swyddogaeth.**<br><br>• **Creu pum rôl Cyfarwyddwr newydd, a**<br><br>• **Newid llinellau adrodd ar gyfer aelodau o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth.**<br><br>• **Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo cynnwys Atodiad 2 yng Nghyfansoddiad y Cyngor.**<br><br>• **Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo'r newidiadau i'r awdurdod dirprwyedig yn Atodiad 3.**<br><br>• **Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo unrhyw benodiadau i swydd Cyfarwyddwr yn y dyfodol gael eu gwneud gan y Pwyllgor Penodiadau, a**<br><br>**Chadarnhau ei fod yn cymeradwyo i unrhyw newidiadau ôl-ddilynol eraill gael eu gwneud i'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu'r argymhellion uchod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn gwneud argymhellion i'r Cyngor Llawn yng nghyswllt newidiadau** |

| | |
|---|---|
| | **i Gyfansoddiad y Cyngor.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Mae'r adroddiad yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan y Cyngor Llawn** |